

CYNGOR BRO MORGANNWG

DISGRIFIAD SWYDD

RÔL/TEITL Y SWYDD	:	Cynorthwy-ydd Cegin
RHIF Y SWYDD	:	RKA2-SCH
ADRAN/CYFARWYDDIAETH	:	Dysgu a Sgiliau
ISADRAN/UNED	:	Gwasanaethau Arlwyo'r Fro
LLEOLIAD	:	Ysgolion ledled y Fro
GRADDFA'R SWYDD	:	Gradd A
YN ATEBOL I	:	Oruchwyliwr yr Uned neu'r Cogydd
YN GYFRIFOL AM	:	
YN CYSYLLTU Â	:	
PRIF DDIBEN Y SWYDD	:	Cyflawni dyletswyddau o dan gyfarwyddyd Goruchwyliwr / Cogydd yr Uned.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

- Helpu'r staff i ddarparu bwyd maethlon, twym yn unol â Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Cyffredinol) 1995 a phob gofyn cyfreithiol arall sy'n ymwneud â hylendid bwyd.
- Cyflawni eich dyletswyddau cegin yn llwyr o dan gyfarwyddyd y Cogydd.
- Helpu i redeg y gegin yn unol â'r Llawlyfr Safonau Arlwyo.
- Gweithredu'r system gyfrifiadurol heb arian yn ôl y gofyn wrth arlwyo pryddau (os yw hynny'n berthnasol).
- Cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch a Hylendid.
- Mynnu cydymffurfio â pholisïau Gwasanaethau Arlwyo'r Fro.
- Gofalu am y peiriannau gwerthu ar y safle fel y bo'r galw (os yw hynny'n berthnasol).

- Deall anghenion cwsmeriaid a sicrhau bod y gwasanaeth gofal cwsmeriaid bob amser o safon uchel.
- Cymryd rhan yn y cynllun hyfforddi parhaol.
- Cyflawni dyletswyddau'r Cogydd Cynorthwyol yn ôl y gofyn (a bwrw eich bod wedi'ch hyfforddi'n briodol) a/neu unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r tîm rheoli am i chi eu cyflawni.
- Helpu i lanhau'r Uned.
- Mynychu cyfarfodydd a chyrsgiau hyfforddi angenrheidiol o bryd i'w gilydd.
- Helpu mewn manau eraill yn ôl yr angen yn ystod y gwyliau, pan fydd rhywun yn sâl ac yn ystod argyfwng.
- Helpu mewn digwyddiadau arbennig y tu mewn a'r tu allan i oriau gwaith arferol.
- Sicrhau bod Rheoliadau Ariannol, Rheolau Sefydlog, Polisiâu a Dulliau Gweithredu'r Cyngor yn cael eu dilyn.
- Dilyn egwyddorion Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch / pholisiâu a dulliau gweithredu perthnasol y Cyngor. Bod yn gyfrifol o fewn rheswm am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch unrhyw rai y gallai eich gweithredu neu'ch diffyg gweithredu effeithio'n andwyol arnynt.
- Dilyn egwyddorion polisi amgylcheddol y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch i'r swyddog diogelwch priodol.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae'n rhesymol i'r Prif Swyddog ofyn i chi eu cyflawni o bryd i'w gilydd, sy'n gweddu i raddfa a chymeriad cyffredinol y swydd.

LLOFNOD:
(Cyfarwyddwr/Prif Swyddog)

DYDDIAD:

LLOFNOD:
(Deiliad y Swydd)

DYDDIAD: